

# Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2020-24

## Pwy sydd wedi gwneud y Cynllun Cydraddoldeb yma?



Cyngor Gwynedd sydd wedi gwneud y Cynllun yma.

## Beth yw'r Cynllun **Cydraddoldeb** yma?



**Cydraddoldeb** ydi gwneud pethau mewn ffordd teg i bawb

Mae Cynllun Cydraddoldeb yn dweud wrtha ni am y gwaith ychwanegol mae Cyngor Gwynedd yn wneud er mwyn bod yn deg hefo bawb.

Mae'r Cynllun yn dweud am y 4 blynedd o Ebrill 2020 i Mawrth 2024

## Be sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb?



Mae Cyngor Gwynedd am weithio ar 5 peth neu amcan er mwyn gwneud yn siŵr fod eu **gwasanaethau** yn deg

**Gwasanaethau** ydi'r gwaith y Cyngor fel ysgolion, lori bins a gweithwyr gofal ar gyfer pobl hŷn.

Dyma'r 5 amcan:

**Beth ydi Amcan 1?**



**Gwneud yn siŵr fod gweithwyr Cyngor Gwynedd a **Cynghorwyr** yn gwybod digon am **Cydraddoldeb****

**Cynghorwyr** ydi'r pobl sy'n cael eu dewis mewn etholiad i edrych ar ôl Cyngor Gwynedd.

Mae y Cyngor am ddysgu gweithwyr a **Cynghorwyr** beth i wneud ar gyfer pobl hefo gwahanol **nodweddion cydraddoldeb**.

Mae **nodweddion cydraddoldeb** yn golygu pethau arbennig am bobl fel oed, crefydd, neu ydi nhw yn ddyn neu ddynes. Mae yn rhaid i Cyngor Gwynedd, fatha mudiadau eraill, wneud yn siwr fod nhw yn trin pobl hefo **nodweddion cydraddoldeb** yn deg.

Mi fydda nhw'n gwneud hyn trwy:

- Gwella'r ffordd mae nhw yn dysgu pobl am **cydraddoldeb**.
- Gwneud yn siŵr fod gan y **Cynghorwyr** ddigon o wybodaeth
- Sôn am **cydraddoldeb** mewn cyrsiau eraill er mwyn ei wneud yn rhan o bob dim mae'r Cyngor yn ei wneud

**Beth yw Amcan 2?**



**Gwrando ar beth sydd gan bobl hefo **nodweddion cydraddoldeb** i ddweud am y Cyngor.**

Mae **nodweddion cydraddoldeb** yn golygu pethau arbennig am bobl fel oed, crefydd, neu ydi nhw yn ddyn neu ddynes. Mae yn rhaid i Cyngor Gwynedd, fatha mudiadau eraill, wneud yn siwr fod nhw yn trin pobl hefo **nodweddion cydraddoldeb** yn deg.

Mi fydda nhw yn gwneud hyn drwy:

- Gofyn i bobl hefo **nodweddion cydraddoldeb** os ydi nhw yn cael problem wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.
- Siarad hefo mwy o grwpiau **cydraddoldeb**.
- Gwneud yn siŵr fod pawb yn y Cyngor yn gallu gweld beth mae pobl wedi dweud wrthym ni er mwyn gwneud gwasanaethau'n well.

**Beth ydi Amcan 3?**



## Gwneud yn siŵr fod staff y Cyngor yn gwybod sut i wneud **Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb** yn iawn

Mae **Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb** yn ffordd o weld os ydi gwasanaethau'r Cyngor yn deg i bawb.

Mi fydda nhw yn gwneud hyn drwy:

- Dysgu gweithwyr y Cyngor sut i wneud yr **Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb** yn iawn
- Helpu Cynghorwyr i ddeall **Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb** yn well
- Gwneud yn siŵr fod **Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb** yn cael eu gwneud o'r dechrau pan mae newidiadau yn cael eu gwneud.

**Beth ydi Amcan 4?**



## Gwneud yn siŵr fod pawb yn cael eu talu'n deg.

Mi fydda nhw yn gwneud hyn drwy:

- Cael mwy o'n gweithwyr i ateb cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb. Mi fydda hynny yn ei gwneud yn haws i ni weld faint o wahanol bobl sy'n gweithio i'r Cyngor.
- Gwneud yn siŵr fod merched ddim yn cael eu talu llai na dynion. Gweld os ydi hynny'n wir am [nodweddion cydraddoldeb](#) eraill fel pobl anabl a phobl sydd ddim yn anabl.
- Gweithio i gael mwy o ferched i gael swyddi uchel o fewn y Cyngor

**Beth ydi Amcan 5?**



## Gwneud yn siŵr fod yna ddigon o wahanol fathau o bobl yn gweithio i'r Cyngor.

Mi fydda nhw yn gwneud hyn drwy:

- Defnyddio'r wybodaeth ryda ni wedi ei gasglu yn Amcan 4 i weld os yda ni angen cael mwy o bobl hefo nodweddion cydraddoldeb i weithio i ni.
- Gweithio hefo mudiadau eraill yn yr ardal i helpu pobl hefo gwahanol **nodweddion cydraddoldeb** i drïo am swyddi.
- Cyrraedd lefel 2 yn y Cynllun Hyderus o ran Anabledd. Mae y Cynllun yma yn helpu mudiadau i wybod sut i helpu gweithwyr anabl.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**



2020 –  
2024

Mae'r Cyngor eisiau gwybod beth mae pobl Gwynedd yn feddwl o'r syniadau yma.

Mi fydd Cyngor Gwynedd yn edrych ar beth mae pobl Gwynedd yn ei ddweud. Mi fydda nhw yn newid y Cynllun Cydraddoldeb os oes angen.

Mi fydd y Cyngor wedyn gweithio i wneud y pethau mae nhw wedi ei addo ei wneud yn y Cynllun.
